

Y GELFYDDYD O BWYSO A MESUR

Sut y gall gwneud collage gychwyn sgysiaiu newydd am faterion anodd


A all **gweithgaredd creadigol** helpu pobl i feddwl a siarad am faterion anodd sy'n aml yn polareiddio cymunedau? Defnyddiodd ein prosiect peilot **weithgaredd gwneud collage i ddechrau sgysiaiu am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru**, ond gellir defnyddio'r broses a ddatblygwyd gennym i ymgysylltu ag ystod eang o bobl, lleoedd a materion.

Canfuom y canlynol:

- 1 Gall gweithgareddau creadigol hwyluso sgysiaiu cydgyngorol, a gwnawn hyn trwy broses integredig sy'n darparu deunyddiau priodol, gwybodaeth allweddol, a hwyluso gofalus.
- 2 Mae pwysu a mesur yn greadigol yn hynod gynhwysol, sy'n denu profiadau a safbwyntiau sydd fel arfer wedi'u heithrio o ffurfiau confensiynol ymgysylltu cydgyngorol â dinasyddion.
- 3 Mae gan allbynnau creadigol y sgysiaiu hyn y potensial i ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Beth yw ymgysylltu cydgyngorol â dinasyddion?

Nod dulliau cydgyngorol o ymgysylltu â dinasyddion yw **dod â phobl gyffredin ynghyd** i glywed a thrafod ystod lawn o safbwyntiau ar bwnc penodol. Mae'r rhain yn cynnwys **cynulladau dinasyddion**, **rheithgorau** neu **baneli dinasyddion**, ac **arolygon barn cydgyngorol**.



Beth yw gwerth ychwanegol dull creadigol o bwysu a mesur?

Datblygodd y prosiect hwn yn dilyn cydweithio ag **Omidaze Productions**, sydd wedi bod yn datblygu dulliau creadigol a chynhwysol o drafod democrataidd. Mae Omidaze yn ymchwilio ac yn datblygu pedwar prototeip Blwch Democrataeth gan gynnwys Y Siop Siarad, sef gofod democrataidd a diwyllianol a gafodd ei dreialu gyntaf yn 2019. Mae model Y Siop Siarad yn cael ei dreialu ledled Cymru ar hyn o bryd. Am fwy o wybodaeth: www.omidaze.co.uk/the-talking-shop/

Bum yn cydweithio ag Omidaze yn Y Siop Siarad yng Nghaerdydd yn 2022. Parwyd ymchwilyr gyda chriw y Siop Siarad, sy'n artistiaid llawrydd proffesiynol ac yn hwyluswyr hyfforddedig. Defnyddiwyd dulliau gwneud collage a fflagiau 'bynting' i ddechrau sgysiaiu am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Mae'r prosiect yma'n adeiladu ar y gwaith hwnnw ac yn datblygu dull mwy strwythuredig o gael sgysiaiu cynhwysol, creadigol a chydgyngorol.

Mae'r gweithgareddau creadigol a ddefnyddir yn y Siop Siarad wedi'u datblygu'n sylweddol yn ystod treialu pellach ym Merthyr Tudful, gan gynnwys defnyddio cerddoriaeth, barddoniaeth, peintio, nodi meddyliau a theimladau, crefftau, ysgrifennu creadigol, darlunio, dawns, drama a'r gair llafar.

Bydd Omidaze yn cwblhau datblygiad glasbrint model Y Siop Siarad o ddulliau creadigol i gynnal trafodaethau democrataidd erbyn diwedd 2023. Hyd yma, mae dros 8,500 o bobl wedi ymweld â'r Siop Siarad mewn gwahanol fannau. Mae Omidaze yn partneru ac yn cydweithio â nifer o sefydliadau er mwyn archwilio sut y gellir defnyddio model Y Siop Siarad ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd mewn unrhyw dref neu ddinas.

O'i gymharu â fformatau cydgyngorol sy'n bodoli eisoes, mae dull creadigol yn ychwanegu gwerth trwy gynnwys **mwya o bobl a safbwyntiau gwahanol** yn y sgwrs.

Yn nodweddiadol, mae fformatau cydgyngorol yn gofyn i bobl siarad, trafod a rhesymu ynghylch pwnc penodol.

Mae dull mwy creadigol o gyfathrebu – fel lluniadu, barddoniaeth neu gerddoriaeth – yn cynnig ffordd wahanol o fynegi'r hyn rydyn ni'n ei feddwl a'i deimlo am bwnc. Mae gweithgaredd creadigol yn cynnig ffordd o gynnwys pobl y mae'n well ganddynt beidio â dadlau, neu sy'n teimlo na allant fynegi eu hunain yn y ffordd honno.

Datblygu dull creadigol o fynd ati i bwysu a mesur

Beth wnaethom ni...



5 gweithdy creu collage (4 i 10 o gyfranogwyr) gyda grwpiau cymunedol yng Nghasnewydd, De Cymru



Ffocws thematig ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru



Datblygiad ailadroddol o broses strwythuredig, yn seiliedig ar adborth gan gyfranogwyr a myfyrdodau gan y tîm ymchwil

Prif heriau..



- 1 **Amser cyfyngedig** – fel arfer roedd y gweithdai'n para rhwng 1 a 2 awr
- 2 **Natur y pwnc** – lefelau isel o ddiddordeb mewn materion cyfansoddiadol a gwybodaeth amdanynt
- 3 **Strwythur sesiynau** – angen cydbwysu hwyluso gyda darparu gwybodaeth wrthychol i lywio trafodaethau

Sut i gael sgysiau creadigol a chydgynghorol am faterion anodd

Yr Agweddau Ymarferol

- 1 Eisteddodd yr hwylusydd a'r cyfranogwyr o amgylch bwrdd
- 2 Detholiad o ddeunyddiau printiedig (cylchgronau, papurau newydd, taflenni'n canolbwyntio ar wleidyddiaeth a chymdeithas Cymru) a deunyddiau crefft (siswrn, glud, beiros a chreionau, sticeri) ar y bwrdd

Y Broses

- 1 **Rhagymadrodd**
Gweithgaredd 'torri'r garw' i ddod i adnabod yr hwylusydd a'r cyfranogwyr
Cyflwyniad i bwnc y gweithdy: yr hwylusydd yn dangos ac yn siarad trwy collage a baratowyd ymlaen llaw: 'Pwy sy'n penderfynu dros Gymru'
- 2 **Cam Creadigol**
Cyfranogwyr yn cynhyrchu collage A3 un dudalen ar 'Fy Nghymru, Nawr ac yn y Dyfodol'
Hwylusydd yn annog trafodaeth gyda chyfranogwyr ynghylch delweddau a geiriau a ddewiswyd ar gyfer eu collage
- 3 **Cam Pwysu a Mesur**
Cyfranogwyr yn cyflwyno ac yn dehongli eu gwaith collage
Hwylusydd yn arwain trafodaeth grŵp ar themâu cyffredin ac yn myfyrio arnynt
- 4 **Casgliad**
Gwahoddir y cyfranogwyr i gwblhau arolwg dienw yn myfyrio ar eu profiad o'r gweithdy

Beth Weithiodd

Mynd i fannau lle mae pobl eisoes yn cyfarfod

Roedd bod yn gyfarwydd â'i gilydd ac ymddiriedaeth rhwng cyfranogwyr yn ei gwneud yn haws i drafod pynciau anodd

Darparu gwybodaeth am y pwnc fel collage wedi'i greu ymlaen llaw

Rhoddodd hyn wybodaeth waelodlin i'r cyfranogwyr am y pwnc, a gallent weld drostynt eu hunain sut roedd collage yn edrych

Dechrau sgysiau gyda'r hyn sy'n bwysig i bobl yn eu bywydau bob dydd

Fe wnaethom ofyn i gyfranogwyr wneud collage ar 'Fy Nghymru: Nawr ac yn y Dyfodol' fel man cychwyn ar gyfer meddwl am sut mae Cymru yn cael ei llywodraethu, a sut y dylai gael ei llywodraethu.

Collage fel gweithgaredd sy'n cael pobl i feddwl

Edrychodd y cyfranogwyr trwy ddeunyddiau collage gan ganolbwyntio ar wleidyddiaeth a chymdeithas Cymru, a thorri allan delweddau a geiriau a oedd yn adlewyrchu pethau oedd o bwys iddynt hwy.

CASGLIAD

Mae gweithgareddau creadigol yn ffordd effeithiol o ddechrau sgysiau am faterion sy'n anodd ac yn ymrannol, a phwysu a mesur materion sy'n ymwneud â nhw.

Mae ein proses yn cynnig ffordd wahanol o feddwl am ymgysylltu cydgynghorol â dinasyddion: mae'n cynnig dull creadigol a all gynnwys gwahanol bobl, gyda gwahanol safbwyntiau, mewn gwahanol leoedd.

Mae angen rhagor o waith i fireinio ac ymestyn y broses o bwysu a mesur creadigol a'i gymhysu i wahanol faterion ac mewn mannau gwahanol.

Os hoffech wybod mwy am y prosiect yma, neu gwaith Omidaze a'r Siop Siarad, cysylltwch â ni:



Dr Anwen Elias, Prifysgol Aberystwyth
awe@aber.ac.uk

Yvonne Murphy, Omidaze Productions /
Y Siop Siarad omidaze@outlook.com